**ADRODDIAD I'R CABINET**

**14 Chwefror, 2017**

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Gareth Thomas

**Pwnc:** Ymgynghori ar Ddiwygio Llywodraethu Ysgolion

**Swyddog cyswllt:** Arwyn Thomas, Penaneth Addysg

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Wrth ymateb i'r Ymgynghoriad ar Ddiwygio Llywodraethu Ysgolion:

- Argymell bod yr Awdurdod yn cytuno i'r cynnig sef bod angen i Lywodraethwyr Awdurodau Lleol gyflawni'r Meini Prawf Sgiliau.

- Argymell bod yr Awdurdod yn cytuno NA ddylid anghymhwyso aelod etholedig o awdurdod lleol rhag bod yn llywodraethwr.

- Argymell bod Cyngor Gwynedd yn datgan i'r Ymgynghoriad ei fod o'r farn nad yw'r adolygiad yn ddigon pellgyrhaeddol i greu cyfundrefn lywodraethu addas i bwrpas.

**CYFLWYNIAD A'R CEFNDIR**

**Mae'r Llywodraeth Cymru wedi comisiynu grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar lywodraethu ysgolion; casgliadau'r grŵp gorchwyl hwn yw'r Ymgynghoriad ar Ddiwygio Llywodraethu. Gofynnwyd i'r Cygor roi barn ar y casgliadau.**

**Gweler Atodiad : Diwygio llywodraethu ysgolion: fframwaith reolaeiddio**

Linc i'r Ymgynghoriad ar Ddiwygio Llywodraethu Ysgolion
(Dogfen A y ddogfen ymgynghori, Dogfen B y ffurflen ymateb)
https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/diwygio-chydgrynhoir-fframwaith-rheoleiddio-llywodraethu-ysgolion-yng-nghymru

- Casgliad Grŵp Gorchwyl a Gorffen llywodraethu ysgolion a sefydlwyd gan Weinidog Addysg a Sgiliau blaenorol i ystyried pa mor addas at y diben yw'r fframwaith llywodraethu ysgolion yng Nghymru, oedd **bod angen i gyrff llywodraethu fod yn fwy medrus yn eu rôl llywodraethu a hefyd bod angen iddynt allu recriwtio'n ehangach er mwyn i'r unigolion gorau allu cyfrannu at lywodraethu Ysgolion.**

- Argymhelliad y Grŵp oedd y dylid symud oddi wrth y model rhanddeiliaid presennol at ddull llywodraethu "Rhanddeiliaid a Mwy". **Byddai'r agwedd 'Mwy' yn gadael i gyrff llywodraethu fod yn ddigon hyblyg a rhydd i recriwtio llywodraethwyr ychwanegol ar sail y sgiliau sydd eu hangen arnynt.**

- Casglodd y Grŵp fod angen, ymhlith pethau eraill:
    - *Mwy o bwyslais ar y sgiliau sydd eu hangen ar lywodraethwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau yn hytrach nag ar bwy y maent yn eu cynrychioli.*
    - *Mwy o eglurdeb ynghylch rolau ac atebolrwydd cyrff llywodraethu.*

**1. CRYNODEB O'R PRIF BWYNTIAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â'R NEWID**

- **Cyrff Llywodraethu Medrus**

  Nodir yr angen am sicrhau bod pob llywodraethwr ysgol yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i fedru "ymdopi" â gofynion eu rôl. Gallai hyn gynnwys profiad perthnasol yn ogystal â sgiliau sy'n cael eu cydnabod yn ffurfiol; er enghraifft, gellid ystyried bod gan rywun sydd â phrofiad yn y gymuned fusnes y sgiliau angenrheidiol i fod yn llywodraethwr ysgol.

  Ymgynghorir ynghylch ei gwneud yn ofynnol i bob llywodraethwr a benodir feddu - ym marn yr unigolyn neu'r corff sy'n ei benodi – ar y sgiliau sy'n ofynnol i gyfrannu at lywodraethu effeithiol a llwyddiant ei ysgol. **Gelwir hyn yn "Feini Prawf Sgiliau**".

  Disgwylir i gyrff llywodraethu gynnal archwiliad sgiliau i weld a oes unrhyw fylchau yn y sgiliau sydd ar gael a phenodi ar sail hynny.

- **Categorïau o Lywodraethwyr yn cael eu hanghymwyso**

  Ymholir a ddymunwch weld unrhyw gategori arall o unigolion yn cael eu hanghymhwyso rhag dod yn llywodraethwr ysgol awdurdod lleol, er enghraifft aelod etholedig o awdurdod lleol.

- **Newidiadau i gategorïau llywodraethwyr**

**Cyfansoddiad Cyrff Llywodraethu**

| **Gofyniad Craidd** | |
|---|---|
| **Rhiant Lywodraethwr wedi'i benodi** | **1+** |
| **Rhiant Lywodraethwr wedi'i ethol** | **1+** |
| **Staff lywodraethwr** | **1+** |
| **Y Pennaeth** | **1** |
| **Awdurdod Addysg** | **1** |
| **Cymunedol** | **1** |
| **Cyfetholedig** | **1+** |

- Ar gyfer pob categori o ysgolion ac eithrio rhai gwirfoddol neu sefydledig, mae'r cynigion yn golygu y gall aelodaeth cyrff llywodraethu fod cyn lleied â **7**.
- Ni fwriedir pennu'r nifer mwyaf o lywodraethwyr ar gyfer yr un categori o ysgolion nac ar gyfer ysgol o unrhyw faint. Bydd gan bob corff llywodraethu'r rhyddid i gael nifer mwy o riant lywodraethwyr, staff lywodraethwyr a llywodraethwyr cyfetholedig os byddant yn dymuno cael rhagor.

**Aelodau Cysylltiol o Bwyllgorau**

Yn wahanol i'r bobl y ceir eu gwahodd i gyfarfodydd pwyllgorau ar hyn o bryd cynigir y caiff corff llywodraethu benodi unigolyn yn aelod cysylltiedig i fynychu pob cyfarfod o bwyllgor

penodedig am gyfnod sy'n para rhwng 1 a 4 blynedd. Mantais hyn yw sicrhau dilyniant i'r corff llywodraethu.

Byddai gan aelod cysylltiol sgiliau i ddeall natur y gwaith a wneir gan y pwyllgor hwnnw a'r profiad i helpu corff llywodraethu i gymryd unrhyw gamau angenrheidiol.

Nid llywodraethwyr fydd yr aelodau cysylltiol, ac felly ni fydd ganddynt hawliau pleidleisio ar bwyllgor **heblaw bod y corff llywodraethu'n penderfynu rhoi'r hawliau hynny iddynt adeg eu penodi**.

**Penodi Pennaeth a dirprwy Bennaeth**
Cynigir cyflwyno gofyniad bod yn rhaid i gyrff llywodraethu hysbysebu swydd wag i bennaeth cyn gynted byth ag y bydd hynny'n rhesymol ymarferol ac o **leiaf ddwywaith mewn blwyddyn** ysgol nes y llenwir y swydd wag.

**Person Annibynnol**
Er mwyn helpu llywodraethwyr, cynigir diwygio cyfansoddiad y panel penodi gan ddweud ei bod yn rhaid iddo gynnwys o leiaf un person annibynnol a fyddai'n cael pleidlais awtomatig yn y panel dethol.

**Prif Swyddog yr Awdurdod Lleol**
Cynigir y dylid rhoi'r hawl i Brif Swyddog Addysg yr awdurdod lleol (neu gynrychiolydd y Prif Swyddog) sydd eisoes â'r hawl i fod yn bresennol ym mhob panel penodi a diswyddo athrawon mewn swyddogaeth gynghori, **bleidleisio ar bob panel didoli a phenodi sy'n ymwneud â phenodi penaethiaid a dirprwy benaethiaid**.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod llawer o gyrff llywodraethu eisoes yn rhoi pleidlais i gynrychiolydd y Prif Swyddog Addysg beth bynnag oherwydd bod profiad ac amhleidioldeb y swyddog yn gallu bod yn amhrisiadwy i lywodraethwyr.

**Amserlen gweithredu gan gynnwys gwneud Offerynnau Llywodraethu**
Pe byddai'r Rheoliadau Newydd yn cael eu gwneud 1 Mehefin 2017. Byddai'r rheoliadau yn dod i rym 1 Rhagfyr 2017. Byddai blwyddyn arall wedyn i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu wneud yr holl newidiadau angenrheidiol er mwyn i gyrff llywodraethu ddechrau gweithredu o dan y Rheoliadau Newydd ar yr un pryd.

Yn yr enghraifft a ddefnyddir uchod, mae hyn yn golygu y caiff cyrff llywodraethu – gyda chymorth eu hawdurdod lleol - **rhwng 1 Mehefin 2017 ac 1 Rhagfyr 2018 ddrafftio Offerynnau Llywodraethu diwygiedig sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau newydd. Bydd yr Offerynnau Llywodraethu diwygiedig yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2018.**

## 2. RISGIAU A AMLYGWYD

Er yn gwerthfawrogi'r gwaith gwirfoddol a gyflawnir gan Lywodraethwyr Gwynedd o dan y model llywodraethu ysgolion presennol, mae teimlad nad yw'r gyfundrefn bresennol yn addas i bwrpas. Nodir pryder bod yr Ymgynghoriad i Ddiwygio Llywodraethu yn mynd beth o'r ffordd i newid y drefn ond nodir risg nad yw'n ddigon radical i newid er gwell lywodraethiant ysgolion ac yn sgil hynny gyfrannu at godi safonau ein hysgolion.

## 3. ARGYMHELLION:

- **Argymell bod yr Awdurdod yn cytuno i'r cynnig sef bod angen i Lywodraethwyr Awdurodau Lleol gyflawni'r Meini Prawf Sgiliau.**

- **Argymell bod yr Awdurdod yn cytuno NA ddylid anghymhwyso aelod etholedig o awdurdod lleol rhag bod yn llywodraethwr.**

- **Argymell bod Cyngor Gwynedd yn datgan i'r Ymgynghoriad ei fod o'r farn nad yw'r adolygiad yn ddigon pellgyrhaeddol i greu cyfundrefn lywodraethu addas i bwrpas.**

**Dogfennau Cefndir**
Diwygio a chydgrynhoi'r fframwaith rheoleiddio llywodraethu ysgolion yng Nghymru – Dogfen Ymgynhori ynghyd a dogfennau cefnogol.

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Diau bod trafod priodol wedi bod ar y sylwadau hyn. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod y pwysau ar lywodraethwyr eisoes yn sylweddol.

**Y Swyddog Monitro:**
Mae swyddogaeth a statws cyfreithiol allweddol gan gyrff llywodraethu yn y gyfundrefn addysg. Mae'n briodol felly fod y Cabinet yn darparu yr ymateb i'r ymgynghoriad yma.

**Y Penaneth Cyllid:**
Derbyniwyd cadarnhad gan awdur yr adroddiad nad oes cais adrannol am adnoddau ychwanegol i'r perwyl o ddiwygio'r fframwaith llywodraethu ysgolion ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nodaf fod cymal 147 ar dudalen 34 o Atodiad C i Ddogfen Ymgynghori perthnasol Llywodraeth Cymru (esboniad o reoliadau llywodraethu a staffio) yn amlygu gallasai fod cost ynghlwm â defnyddio "personau annibynnol" ar baneli penodi a phaneli disgyblu. Felly, gallwn ddychwelyd i ail-ystyried hyn. Ymhellach, bydd yr Adran Addysg ac Uned Gyfreithiol y Cyngor yn defnyddio'u hadnoddau staff cyfredol er mwyn rhoi'r offerynnau llywodraethu (cyfansoddiad i'r cyrff llywodraethu) mewn lle ar gyfer pob un o'n ysgolion cyn diwedd Rhagfyr 2018.